
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2025 Rhif 1109 (Cy. 184)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio)
(Cymru) 2025**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae Rheoliadau 1992 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi'r dreth gyngor yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac, yn Rhan 5 a Rhan 6 yn y drefn honno, yn amlinellu'r broses y mae rhaid i awdurdod bilio ei dilyn wrth gasglu'r dreth gyngor a gorfodi dyled mewn perthynas â'r dreth gyngor.

Mae rheoliad 23 o Reoliadau 1992 yn rhagnodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid i'r awdurdod bilio gyflwyno hysbysiad atgoffa, a phan fydd balans heb ei dalu'r swm amcangyfrifedig neu'r swm a godir yn dod yn daladwy. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 23 o Reoliadau 1992 i ragnodi y caiff awdurdod bilio, yng Nghymru, gyflwyno hysbysiad atgoffa i berson atebol pan na fydd rhandaliadau sy'n daladwy wedi eu talu, a rhaid i'r hysbysiad hwn gynnwys gwybodaeth benodol, gan gynnwys swm agregiad y rhandaliadau sy'n daladwy ac unrhyw rhandaliadau a ddaw'n daladwy o fewn saith niwrnod i ddyroddi'r hysbysiad.

Mae rheoliad 24 o Reoliadau 1992 yn rhagnodi'r amgylchiadau pan fydd rhaid addasu'r swm a godir. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "estimated amount" yn rheoliad 24 o Reoliadau 1992 i adlewyrchu'r ffaith bod y swm a godir (neu'r swm amcangyfrifedig) yn dod yn ddyledus ar ôl i berson atebol fethu â thalu'r swm a nodir o dan hysbysiad terfynol yn hytrach nag o dan hysbysiad atgoffa.

Mae rheoliad 27 o Reoliadau 1992 yn darparu ar gyfer bilio personau sy'n atebol ar y cyd ac yn unigol i dalu'r dreth gyngor. Mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 27 o Reoliadau 1992 i alluogi rheoliad 33 i weithredu yn achos talwyr y dreth gyngor sy'n atebol ar y cyd ac yn unigol.

Mae rheoliad 33 o Reoliadau 1992 yn rhagnodi'r camau y mae rhaid i awdurdod bilio eu cymryd cyn y gall wneud cais i lys ynadon am orchymyn atebolrwydd. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 33 o Reoliadau 1992 i ragnodi bod rhaid i awdurdod bilio, yng Nghymru, gyflwyno hysbysiad terfynol i berson atebol ar ôl cyfnod penodedig o amser, cyn y gall wneud cais i lys ynadon am orchymyn atebolrwydd.

Mae rheoliad 34 o Reoliadau 1992 yn rhagnodi'r broses y mae rhaid i awdurdod bilio ei dilyn er mwyn gwneud cais am orchymyn atebolrwydd. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 34 o Reoliadau 1992 i ragnodi, o ran Cymru, pan fo hysbysiad terfynol wedi ei gyflwyno a bod y swm a nodir yn yr hysbysiad yn parhau i fod heb ei dalu ar ôl cyfnod penodedig o amser, y caiff yr awdurdod bilio wneud cais i lys ynadon am orchymyn atebolrwydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac fe'i cyhoeddir ar www.llyw.cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2025 Rhif 1109 (Cy. 184)

Y DRETH GYNGOR, CYMRU

**Rheoliadau'r Dreth Gyngor
(Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio)
(Cymru) 2025**

Gwnaed 20 Hydref 2025

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 22 Hydref 2025

Yn dod i rym 1 Ebrill 2026

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan baragraffau 1(1), 2(4)(e), 2(5)(a), 3(1) a (2) a 4(2) o Atodlen 2 a pharagraffau 1(1)(a)(1), 3(1)(a) a (4)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(2) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(3).

Enwi a dod i rym

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

-
- (1) Diwygiwyd paragraff 1(1) o Atodlen 4 gan baragraff 107(2) o Atodlen 13 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 (p. 15).
- (2) 1992 p. 14.
- (3) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Fe'u trosglwyddwyd wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Diwygio Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992

2. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) 1992(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 7.

3. Yn rheoliad 23 (methu â thalu rhandaliadau)—

- (a) ym mharagraff (1)(a), ar ôl “billing authority” mewnosoder “in Wales or England”;
- (b) ym mharagraff (1), yn lle “the billing authority shall serve a notice (“reminder notice”) on the liable person stating—” rhodder “the billing authority in England shall, and the billing authority in Wales may, serve a notice (“reminder notice”) on the liable person. Where the notice is served by a billing authority in England, it must state—”;
- (c) ym mharagraff (2), ar ôl “reminder notice” mewnosoder “by a billing authority in England”;
- (d) ym mharagraff (3), ar ôl “is issued” mewnosoder “by a billing authority in England”;
- (e) ym mharagraff (4), ar ôl “reminder notice” mewnosoder “issued by a billing authority in England”;
- (f) ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

“(5) A reminder notice served by a billing authority in Wales under regulation 23(1) must state—

- (a) the amount which is the aggregate of the instalments which are due under the demand notice or any subsequent notice given under paragraph 10 of Schedule 1, and which are unpaid on the day on which the reminder notice is issued,
- (b) the instalments that will become due under the demand notice or any subsequent notice given under paragraph 10 of Schedule 1, within the period of seven days beginning with the day on which the reminder notice is issued,
- (c) that the amount stated in sub-paragraph (a) is overdue,
- (d) that the amount stated in sub-paragraph (b) is due to be paid within the period mentioned in that sub-paragraph, and

(4) O.S. 1992/613; fe'i diwygiwyd gan O.S. 1994/505, 1997/393 a 2011/528 (Cy. 73); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

- (e) any other information as the billing authority considers necessary.”

4. Yn rheoliad 24(7) (taliadau: addasiadau), ar ôl “regulation 23(3)” mewnosoder “or regulation 33(6)”.

5. Yn rheoliad 27 (cyd-drethdalwyr), ar ôl paragraff (2)(d) mewnosoder—

“(da) regulation 33(5) and (6) (liability order: preliminary steps) has effect as if references to the liable person and to an amount becoming payable by the liable person were references to such of the joint taxpayers as have been served with a demand notice and to an amount becoming payable by them, respectively;”.

6. Yn rheoliad 33 (gorchmynion atebolrwydd: camau rhagarweiniol)—

(a) ym mharagraff (1)—

- (i) ar ôl “billing authority” mewnosoder “in Wales or England”;
- (ii) yn lle “(“final notice”), which is to” rhodder “(“final notice”), and where it is served by a billing authority in England, it must”;

(b) ym mharagraff (2), ar ôl “served” mewnosoder “by a billing authority in England”;

(c) ym mharagraff (3), ar ôl “final notice” mewnosoder “by a billing authority in England”;

(d) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) A final notice served by a billing authority in Wales must be served—

- (a) not less than 14 days after the day on which the most recent reminder notice has been issued, and
- (b) not less than 41 days after the day on which the payment was due to be paid and remains unpaid.

(5) A final notice served by a billing authority in Wales must state—

- (a) the amount that is unpaid on the day the final notice is served,
- (b) that the amount stated in sub-paragraph (a) is due by the end of the period of 21 days beginning with the day on which the final notice is served, and
- (c) the effect of paragraph (6) below and the amount that becomes payable by the liable person in the circumstances mentioned in that paragraph.

(6) If the liable person has failed to pay the amount due by the end of the period of 21 days beginning with the day on which the final notice was served by a billing authority in Wales, the unpaid balance of the chargeable amount (or its estimated amount) becomes payable on the following day.”

7. Yn rheoliad 34 (cais am orchymyn atebolrwydd)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “billing authority” mewnosoder “in England”;

(b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

“(1A) Where a final notice has been served by a billing authority in Wales under regulation 33(1) and the amount stated in the final notice is wholly or partly unpaid after the period of 21 days beginning with the day on which the final notice was issued, the billing authority may, in accordance with paragraph 2, apply to a magistrates’ court for an order against the person by whom it is payable.

(1B) An application to a magistrates’ court under paragraph (1A) may be made no earlier than the day after the chargeable amount (or its estimated amount) becomes payable.”;

(c) ym mharagraff (2), ar ôl “application” mewnosoder “made under regulation 34(1) or 34(1A)”.

Mark Drakeford

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru

20 Hydref 2025